

Fy Llyfryn Hawliau Plant

Dyma fi:




Erthygl 8: Mae gen i hawl i hunaniaeth


Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



**Comisiynydd
Plant Cymru**
Children's
Commissioner
for Wales



Croeso





Fy enw i yw Sally a fi yw Comisiynydd Plant Cymru. Mae'r llyfryn hawliau plant yma wedi ei greu ar eich cyfer chi, fel eich bod chi'n gallu parhau i ddysgu am hawliau plant o'r tŷ.

Rwy'n edrych ymlaen i gael clywed am eich profiad gyda'r llyfryn. Gallwch rannu eich gwaith gyda'ch athro dosbarth neu oedolyn, a gallan nhw ymuno gyda'r **#AwrHawliau** bob **dydd Gwener rhwng 12-1pm** ar Twitter.



Awgrymiadau Gwych



	Os gwelwch chi bensil, bydd angen i chi ysgrifennu ateb neu dynnu llun.
	Os gwelwch chi'r arwydd yma, gallai fod angen i chi ofyn am help neu gael rhagor o wybodaeth.
	Os gwelwch chi'r arwydd yma, mae hwn yn weithgaredd ychwanegol. Gallwch chi wneud y gweithgaredd yma os byddwch chi'n gorffen yr un cyntaf yn gyflym.
	Os gwelwch chi'r arwydd yma, mae cwestiwn i chi ofyn i bobl eraill yn eich tŷ.



Cynnwys



Gweithgaredd 1: Eisiau ac Angen

Gweithgaredd 2: Fy Nheimladau

Gweithgaredd 3: Beth sy'n gwneud ffrind da?

Gweithgaredd 4: Fy Nghymuned

Gweithgaredd 5: Sally a'i Phwerau

Gweithgaredd 6: Her Hawliau Plant



Gweithgaredd 1: Eisiau ac Angen



1. Lliwiwch y daflen Eisiau ac Angen (ar y dudalen nesa).

Gallech dynnu llun o'ch fersiwn chi o'r daflen yn lle ei hargraffu.

2. Torrwch y lluniau allan yn ofalus.

3. Rhannwch y lluniau'n ddau bentwr.

Un pentwr yw'r pethau rydych chi ANGEN i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel a'r pentwr arall yw pethau rydych chi EISIAU.














4. Tynnwch lun o gorff ar ddarn o bapur.


5. Rhowch y pethau rydych chi ANGEN tu fewn I'r corf a'r pethau rydych chi EISIAU tu allan.



Gofynnwch i oedolyn fynd trwy'r poster hawliau gyda chi i weld ai'r pethau tu mewn i'r corff yw eich hawliau plentyn.








Gweithgaredd Ychwanegol



1. Ysgrifennwch restr o'r pethau sydd eu HANGEN arnoch chi i dyfu'n hapus, yn iach ac yn ddiogel
2. Allwch chi enwi 5 oedolyn sy'n eich helpu chi i gael eich hawliau plant (y pethau sydd eu HANGEN arnoch i dyfu i fyny yn teimlo'n hapus, yn iach ac yn ddiogel)?
3. Ydy anrheg yn rhywbeth rydych chi ei eisiau neu ei angen? Ysgrifennwch baragraff yn egluro'ch ateb.



Gweithgaredd 2: Fy Nheimpladau

	Erthygl 12: Mae gennych chi hawl i gael gwrandawriad.
---	---

Gweithiwch gyda'r bobl yn eich tŷ i greu wal teimpladau.

Defnyddiwch y wal i drafod sut rydych chi'n teimlo ar ddechrau pob diwrnod.





1. Defnyddiwch dudalen "Fy Nheimpladau" i siarad ag oedolyn am eich teimpladau.
2. Tynnwch lluniau gwynebau teimpladau eich hun i rhoi rhywle yn eich tŷ.
3. Defnyddiwch yr wynebau teimpladau bob bore i drafod sut rydych chi'n teimlo.




Fy Nheimpladau



Meddyliwch am y cwestiynau yma, a dywedwch wrth athro am eich ateb.

	Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n drist?
	Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n flin?
	Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n bryderus?
	Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n hapus?





Gweithgaredd Ychwanegol




1. Faint o emosiynau allwch chi eu henwi? Ysgrifennwch restr a'i rhannu gyda'ch athro.
2. Dewiswch emosiwn ac ysgrifennwch gerdd amdano.
3. Ysgrifennwch stori am adeg pan oeddech chi'n teimlo'n hapus

Os ydych chi'n teimlo'n drist, neu os nad oes ganddoch chi'r pethau sydd eu hangen arnoch chi, siaradwch gydag oedolyn.


Gallech hefyd gysylltu â **Childline** drwy ffonio **0800 1111**.



Gweithgaredd 3: Beth sy'n gwneud ffrind da?




Erthygl 15: Mae gennych chi hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau.



1. Tynnwch linell o amgylch eich llaw.
2. Meddyliwch am beth sy'n gwneud ffrind da.
3. Ysgrifennwch neu tynnwch lun o un ateb ym mhob bys.

Gweithgaredd Ychwanegol




1. Ysgrifennwch lythyr at eich athro. Dywedwch wrthyn nhw am eich ffrind. Cofiwch egluro beth rydych chi'n meddwl sy'n gwneud ffrind da.
2. Ydych chi'n rhan o grŵp fel gymnasteg neu'r rygbi? Gwnewch boster yn perswadio pobl i ymuno â'ch grŵp.



Gweithgaredd 4: Fy Nghymuned

Gwnewch fap o'ch cymuned leol. Cofiwch gynnwys adeiladau fel:



Ysgolion

Siopau

Adeiladau crefyddol (Eglwys, Mosg, Synagog)

Meddygfa/Deintyddfa



Gofynnwch i oedolyn edrych i weld a ydych chi wedi cofio'r holl adeiladau pwysig.

Gallech ddefnyddio map i'ch helpu chi, neu fynd am dro i weld a ydych chi wedi cofio popeth.

Defnyddiwch y poster "Deall eich Hawliau" i gysylltu hawliau plant gyda'r pethau yn eich ardal leol.

Er enghraifft, gallech chi gysylltu'r Feddygfa gydag Erthygl 24: "Mae gen i hawl i ofal iechyd o ansawdd da".




Gweithgaredd 5: Sally a'i Phwerau



Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn dysgu am **Sally Holland**, sef Comisiynydd Plant Cymru.

1. Gwylwch y fideo am Sally.
2. Ceisiwch gofio beth yw phwerau Sally. Gallwch wyllo'r fideo eto i'ch helpu.
3. Gwnewch boster i ddweud wrth blant eraill am Sally a'i phwerau.
4. Rhannwch eich poster gyda'ch athro neu oedolyn.



Widgit Symbols © Widgit Software 2002 - 2019 www.widgit.com



**Comisiynydd
Plant Cymru**
Children's
Commissioner
for Wales

Gweithgaredd 6: Her Hawliau Plant



Allwch chi greu eich gweithgaredd hawliau plant eich hun?

1. Edrychwch ar y poster "Deall eich Hawliau"
2. Dewiswch un hawl.
3. Meddyliwch am ffordd ddiddorol o ddweud wrth blant eraill am yr hawl yma.

Dyma rai syniadau am beth allech chi ei wneud:

- poster
- gêm
- fideo

4. Rhannwch eich gweithgaredd gyda'ch athro neu oedolyn.

